# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Ionawr 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

(13.30 – 14.30) (Tudalennau 1 – 21)

Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil

Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Claire Fife, Cynghorydd Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol a Phennaeth Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-25 – Papur 3 – Papur briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-25 – Papur 4 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.50 – 14.55)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**6.3 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Cyd-drefniant ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig) (Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 22 - 23)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-25 – Papur 31 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 10 Ionawr 2025

**6.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig) (Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 24 - 28)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-25 – Papur 32 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 9 Ionawr 2025

LJC(6)-02-25 – Papur 33 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 10 Ionawr 2025

## 11 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig): Trafod yr adroddiad drafft

(15.25 - 15.55) (Tudalennau 29 - 74)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-25 – Papur 23 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-25 – Papur 34 – Cynrychiolaeth o gyrsiau dŵr yng Nghymru

LJC(6)-02-25 – Papur 35 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-02-25 – Papur 36 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

LJC(6)-02-25 - Papur 37 - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

## 13 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig

(16.10 - 16.20) (Tudalennau 75 - 78)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-25 - Papur 25 - Papur [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6.3

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig) (Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) 2025** |
| **DYDDIAD** | **10 Ionawr 2025** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd Aelodau o'r Senedd am gael gwybod rwyf yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig o ran Cymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan y Farwnes Hayman i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig) (Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) 2025 i fod yn gymwys o ran Prydain Fawr.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr OS uchod drwy arfer y pwerau a roddir gan erthygl 89(a) o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 ac adran 38(5) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill.

Mae'r OS yn diwygio'r Rheoliadau isod:

- Rheoliad y Cyngor a Ddargedwir (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig (EUR 2007/834);
- Rheoliad y Comisiwn a Ddargedwir (EC) Rhif 543/2008 sy’n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer cig dofednod (EUR 2008/543);
- Rheoliad y Comisiwn a Ddargedwir (EC) Rhif 1235/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ynghylch y trefniadau ar gyfer mewnforio cynhyrchion organig o drydydd gwledydd (EUR 2008/1235);
- Rheoliad y Comisiwn a Ddargedwir (EC) Rhif 1295/2008 ar fewnforio hopys o drydydd gwledydd (EUR 2008/1295);

- Rheoliad a Ddargedwir (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol (EUR 2013/1308);
- Rheoliadau Ardystio Hopys 1979, mewn cysylltiad â Phrydain Fawr (O.S. 1979/1095).

Daeth y rheoliadau hyn i ben ar 31 Ionawr 2025, er mwyn caniatáu i'r darpariaethau trosiannol presennol ar gyfer Safonau Marchnata a Chynhyrchion Organig gael eu hymestyn hyd at 1 Chwefror 2027.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 9 Ionawr 2025 a byddant yn dod i rym ar 1 Chwefror 2025.

Eitem 6.4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025** |
| **DYDDIAD** | **09 Ionawr 2025** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Bydd Aelodau'r Senedd am gael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig ar gyfer Cymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Farwnes Hayman o Ullock i wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025 ('y Rheoliadau').

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer pwerau o fewn Rheoliad (UE) 2016/2031 ('y Rheoliad Iechyd Planhigion') a Rheoliad (UE) 2017/625 ('y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol'). Yn unol â'r Rheoliadau hynny, cysylltodd yr Ysgrifennydd Gwladol â Gweinidogion Cymru a'r Alban am gydsyniad i gymhwyso'r Rheoliadau i Gymru a'r Alban yn y drefn honno. Yn unol â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal ymgynghoriad (y bydd crynodeb ohono yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau).

Mae'r Rheoliadau'n diogelu bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd drwy gyflwyno neu ddiwygio mesurau i amddiffyn rhag plâu planhigion. Maent hefyd yn diwygio mesurau rheolaethau swyddogol penodol er mwyn sicrhau bod rheolau iechyd planhigion yn cael eu gweithredu, ac yn gwneud diweddariadau technegol i ddeddfwriaeth.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol i alinio nwyddau (ffrwythau a llysiau penodol) sydd wedi'u hesemptio o'r gofyniad i rag-hysbysu, â'r rhai sydd wedi'u hesemptio o'r gofynion i rai rheolaethau swyddogol gael eu cynnal pan fydd y nwyddau hynny'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr o Aelod-wladwriaeth o'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir. Mae hyn yn dod â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072 ('y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol').

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1014 ('Rheoliad Gofynion Sylfaenol Safle Rheolaethau'r Ffin') i ddiffinio planhigion mawr, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau mawr eraill, ac mae'n mewnosod Erthygl 6A newydd i ddarparu'r gofynion ychwanegol ar gyfer ardaloedd dadlwytho ac ardaloedd archwilio ar gyfer y nwyddau hynny. Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn cynnwys rheoliadau 5 i 12 ac yn diwygio'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol. Mae rheoliadau 5 a 6 yn diweddaru'r rhestr o blâu cwarantîn yn Atodiad 2 a'r rhestr o blâu cwarantîn dros dro yn Atodiad 2A. Mae *Heterobasidion irregulare* wedi cael ei ddileu o'r rhestr dros dro a'i ychwanegu at y rhestr o blâu cwarantin. Mae *Diaporthe phaseolorum* var. *sojae* wedi cael ei symud o'r categori “Bacteria” i'r categori “Ffyngau ac oomysetau”. Mae amryw enwau plâu wedi cael eu diwygio i sicrhau bod y plâu hynny'n cael eu hadnabod yn ôl eu henw diweddaraf.

Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn diweddaru amryw enwau plâu yn y rhestr o blâu di-gwarantîn a reoleiddir a'r planhigion cysylltiedig, a'r rhestr o fesurau i atal presenoldeb plâu di-gwarantîn a reoleiddir ar blanhigion penodol er mwyn sicrhau cysondeb ag enwau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae Rheoliadau 9 a 10 yn diweddaru enwau plâu yn Atodiadau 7 ac 8 er mwyn sicrhau cysondeb ag enwau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae Rheoliad 9 hefyd yn ychwanegu gofyniad yn Atodiad 7 i rai planhigion a fewnforir ar gyfer plannu fod wedi cael eu tyfu mewn man cynhyrchu cofrestredig. Mae'n ychwanegu gofynion ychwanegol i atal lledaeniad *Popillia japonica* Newman, ac mae'n caniatáu planhigion *Capsicum* lle y cânt eu cynhyrchu o hadau heb eu profi pan fwriedir eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol sydd ddim yn ymwneud â chynhyrchu planhigion. Mae'r gofynion mewnforio ar gyfer firws straen cudd mafon y gorllewin o'r feirws rhesog tybaco, feirws crychu dail mafon a feirws dail rhathellog ceirios yn cael eu hegluro. Mae cofnodion wedi cael eu hychwanegu ar gyfer cynhyrchion o *Abies* spp. Mill., *Calocedrus decurrens* Torrey, *Juniperus* spp. L., *Larix* spp. Mill., *Picea* spp. Mill., *Pinus* spp. L., a *Pseudotsuga menziesii* (Mirbel) Franco.

Mae Rheoliad 11 yn diweddaru'r rhestrau yn Atodiad 11 mewn perthynas â gofynion tystysgrif ffytoiechydol i ail-gategoreiddio ffrwythau a llysiau penodol sy'n cyrraedd o'r UE a'r Swistir ac mae 'pinales' wedi cael ei ail-gategoreiddio'n “Pinopsida”.

Mae rheoliad 12 yn diweddaru'r rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill y mae pasbortau planhigion y DU yn ofynnol ar eu cyfer i sicrhau cysondeb â'r enw ar gonifferau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 mewn perthynas ag esemptiadau o'r gofyniad am ardystiad

iechyd planhigion i sicrhau cysondeb â'r gofynion rhag-hysbysu yn dilyn diwygiadau i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol a'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a disgwylir iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 8 Ionawr 2025. Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog. Nid yw'r Rheoliadau yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fioddiogelwch Cymru, Lloegr a'r Alban – mater sydd wedi cael ei ystyried ar y cyd yn draddodiadol. Nid yw plâu a chlefydau planhigion eraill yn parchu ffiniau rhwng gwledydd. Mae llawer o'r Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod drwy borthladdoedd Lloegr.

Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar sail Cymru, Lloegr a'r Alban yn cynorthwyo'r rhanddeiliaid hynny y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth i gynnal ein bioddiogelwch.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n rhoi'r manylion am darddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma: The Official Controls (Plant Health) and Phytosanitary Conditions (Amendment) Regulations 2025

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/10547/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch dyddiedig 23 Rhagfyr 2024 Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025 ('y Rheoliadau'). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yma.

Mae'r Rheoliadau yn gymwys o ran Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chawsant eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 8 Ionawr 2025. Y dyddiad cychwyn yw 30 Ionawr 2025.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fioddiogelwch Cymru, Lloegr a'r Alban – mater sydd, yn draddodiadol, wedi cael ei ystyried ar y cyd. Nid yw plâu a chlefydau planhigion eraill yn parchu ffiniau rhwng gwledydd. Mae llawer o'r Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod drwy borthladdoedd Lloegr. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn cynorthwyo'r rhanddeiliaid hynny y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth i gynnal ein bioddiogelwch.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



**Huw Irranca Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cafodd y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 4 Medi 2024. Gosodais LCM ar 18 Medi 2024 ac LCMau Atodol ar 4 a 27 Tachwedd 2024.

3. Ceir fersiwn ddiweddaraf y Bil yn y Bil Dwr (Mesurau Arbennig).:

## Amcan(ion) y Polisi

4. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) i gryfhau pwerau'r rheoleiddiwr ac i ddatrys y problemau llygredd dŵr. Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth Lafur i lanhau ein dyfrffyrdd. Mae'r Bil yn ymateb i fethiannau eang canfyddedig y sector dŵr o ran mynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio. Rwyf wedi cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr gael eu cymhwyso i Gymru.

## Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cwmpasu mesurau y bwriedir iddynt gryfhau pwerau rheoleiddwyr y diwydiant dŵr, gan gynnwys Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI). Gwneir y newidiadau a weithredir gan y Bil drwy gyfuniad o ddarpariaethau annibynnol a diwygiadau i Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, sydd gyda'i gilydd yn gyfran arwyddocaol o'r ddeddfwriaeth sy'n bod sy'n ymwneud â dŵr.

6. Cytunais mewn egwyddor i estyn y ddarpariaeth i Gymru a cheisio pwerau sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy'r Bil.

## Y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

7. Bu trafod rheolaidd rhwng y DU a Llywodraeth Cymru gydol taith y Bil trwy'r Senedd, gan gynnwys y cam gwneud gwelliannau yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi.

8. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am welliant i estyn Cymal 2 (Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd) i Gymru. Cytunwyd ar hynny yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi, ynghyd ag ar welliannau eraill a wnaed gan y llywodraeth sy'n effeithio ar Gymalau 2 ac 13.

**Gwelliannau anllywodraethol y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi.**

9. Yn ogystal â'r 34 o welliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, y cytunwyd arnynt bob un (ac yr ymdrinnir â nhw yn SLCM (Rhif 3), cafodd dau welliant gan yr wrthblaid eu pasio yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau'n effeithio ar Gymal 1 (Rheolau ynghylch taliadau a llywodraethiant).

10. Gwelliant 2 (Cymal 1)

    Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i Ofwat, wrth arfer y pŵer gwneud rheoliadau o dan Gymal 1, geisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n gofyn bod ymgymerydd perthnasol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ar waith strwythuro ariannol gwirioneddol neu arfaethedig, strategaeth masnachol a lefelau dyledion, ymhlith materion cyllidol eraill. Bwriad tebygol y gwelliant yw helpu rheoleiddwyr (Ofwat) i ddeall y gwasgfeydd a'r risgiau ariannol y mae cwmnïau dŵr yn eu hwynebu, gan ganiatáu iddynt sefydlu mesurau ymyrryd buan, os oes angen.

11. Gwelliant 11 (Cymal 1)
    Mae Cymal 1 yn diwygio Deddf Diwydiant Dŵr 1991 ac yn nodi dyletswyddau ychwanegol yn yr adran 35B newydd ar y rheolau ynghylch taliadau a llywodraethiant o dan baragraffau 1(5) ac 1(6). Nid oedd datganiad esboniadol gan yr aelod wedi'i atodi wrth y gwelliant. Bwriad tebygol y cymal yw (a) bod yn rhaid i Ofwat gyhoeddi'r rheolau cyntaf yn defnyddio'r pŵer newydd o fewn chwe mis wedi i'r Bil ddod i rym (b) wrth wneud, rhaid anfon copi i'r Ysgrifennydd Gwladol (c) ni ddaw'r rheolau hynny i rym tan y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau'n dod â nhw i rym a (d) daw'r rheoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y DU.

**Barn Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

12. Nid yw'r gwelliannau anllywodraethol y cytunwyd arnynt yn newid fy marn ynghylch y gofyn am gydsyniad ar gyfer y cymalau hynny y maent yn eu diwygio. Hynny am fod y cymalau hynny'n ymwneud â mater datganoledig, sef y diwydiant dŵr.

13. Barn Llywodraeth y DU yw bod y gwelliannau i Gymal 1 yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

14. Mae'r rhesymau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol ar y Bil hwn ynghylch pam ei bod yn briodol i ddeddfwriaeth y DU wneud darpariaeth am Gymru yn y Bil hwn yn parhau'n berthnasol. Rwy'n ailddatgan fy nadleuon yma er hwylustod cyfeirio.

15. Bydd y Bil yn dod â newidiadau cadarnhaol ac yn cefnogi ein nod cyffredinol i leihau llygredd dŵr yng Nghymru. Mae'r Bil yn deddfu ar ystod o bynciau a materion polisi y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu nodau ac amcanion clir arnynt.

16. Mae dŵr yn ei hanfod yn fater trawsffiniol, ac mae effeithiau amgylcheddol ansawdd dŵr yn fater na allwn ei ddatrys ar ein pennau ein hunain. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi mabwysiadu dull cydweithredol yng Nghymru o ran gwella ansawdd dŵr a llywodraethiant yn y sector, ac mae'r Bil hwn yn gyfle i ymestyn y cydweithrediad hwnnw ar draws y ffin.

17. Mae rhai rheoliadau a chyfreithiau hefyd yn gymwys yng Nghymru a Lloegr ill dwy. Mae dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb rheoleiddiol. Mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, yn enwedig o ran ansolfedd, felly ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Senedd mor gynhwysfawr â'r cynigion cyfredol.

**Goblygiadau ariannol**

18. Nid yw'r gwelliannau'n golygu unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Casgliadau**

19. Yn fy marn i, mae'n briodol delio â'r gwelliannau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU trwy Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod amcanion y Bil yn cyd-fynd yn llwyr â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r mater yn un trawsffiniol yn ei hanfod sy'n gofyn am gydweithio a chydlynu rhwng ein dwy Lywodraeth.

20. Ni chafodd y ddau welliant a ddisgrifir eu cynnig, eu datblygu na’u cefnogi gan y Llywodraeth. Maent yn anghytuno ag amcanion polisi Cymal 1 a Gwelliant 11 ac yn mynd yn groes i’n Hegwyddorion ar Ddeddfwriaeth y DU. Rhaid felly wrth fwy o drafod â Llywodraeth y DU ynghylch datblygu’r gwelliannau hyn. Byddaf yn darparu mwy o wybodaeth i Senedd Cymru am farn Llywodraeth Cymru am y gwelliannau hyn ar ôl y trafodaethau hynny.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Rhagfyr 2024**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 5)**

**Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cafodd y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi Senedd y DU ar 4 Medi 2024. Gosodais LCM ar 18 Medi 2024 ac LCMau Atodol ar 4 a 27 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2024.

3. Ceir fersiwn ddiweddaraf y Bil yn y Bil Dwr (Mesurau Arbennig).

## Amcan(ion) y Polisi

4. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) i gryfhau pwerau'r rheoleiddiwr ac i ddatrys y problemau llygredd dŵr. Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth Lafur i lanhau ein dyfrffyrdd. Mae'r Bil yn ymateb i fethiannau eang canfyddedig y sector dŵr o ran mynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio. Rwyf wedi cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant dŵr gael eu cymhwyso i Gymru.

## Crynodeb o’r Bil

5. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cwmpasu mesurau y bwriedir iddynt gryfhau pwerau rheoleiddwyr y diwydiant dŵr, gan gynnwys Ofwat, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI). Gwneir y newidiadau a weithredir gan y Bil drwy gyfuniad o ddarpariaethau annibynnol a diwygiadau i Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991, sydd gyda’i gilydd yn gyfran arwyddocaol o'r ddeddfwriaeth sy'n bod sy'n ymwneud â dŵr.

6. Cytunais mewn egwyddor i estyn y ddarpariaeth i Gymru a cheisio pwerau sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy'r Bil.

## Y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

7. Bu trafod rheolaidd rhwng y DU a Llywodraeth Cymru gydol taith y Bil trwy'r Senedd, gan gynnwys y cam gwneud gwelliannau yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin.

8. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dau welliant arall yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i ddileu cymalau wedi'u hychwanegu at y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi drwy bleidlais gan yr wrthblaid. Mae'r SLCM hwn yn ymdrin â'r gwelliannau hyn gan Lywodraeth y DU.

**Darpariaethau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

9. Mae Gwelliant 1 yn effeithio ar Gymal 1, tudalen 2, gan hepgor llinellau 4 – 8. Mae'r gwelliant yn dileu'r angen i reolau wedi'u gwneud o dan Gymal 1 gynnwys gofynion adrodd ariannol.

10. Mae Gwelliant 2 yn effeithio ar Gymal 1, tudalen 4, llinell 33, gan hepgor is-adrannau (5) a (6). Mae'r gwelliant yn dileu'r angen i ddod â rheolau wedi'u gwneud gan Ofwat o dan Gymal 1 i rym drwy offeryn statudol.

**Barn Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch yr angen am gydsyniad**

11. Nid yw gwelliannau Llywodraeth y DU yn newid fy marn ynghylch y gofyn am gydsyniad ar gyfer y cymalau hynny y maent yn eu diwygio. Hynny am fod y cymalau hynny'n ymwneud â mater datganoledig, sef y diwydiant dŵr.

12. Barn Llywodraeth y DU yw bod y gwelliannau i Gymal 1 yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

13. Mae'r rhesymau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol ar y Bil hwn ynghylch pam ei bod yn briodol i ddeddfwriaeth y DU wneud darpariaeth am Gymru yn y Bil hwn yn parhau'n berthnasol. Rwy'n ailddatgan fy nadleuon yma er hwylustod cyfeirio.

14. Bydd y Bil yn dod â newidiadau cadarnhaol ac yn cefnogi ein nod cyffredinol i leihau llygredd dŵr yng Nghymru. Mae'r Bil yn deddfu ar ystod o bynciau a materion polisi y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu nodau ac amcanion clir arnynt.

15. Mae dŵr yn ei hanfod yn fater trawsffiniol, ac mae effeithiau amgylcheddol ansawdd dŵr yn fater na allwn ei ddatrys ar ein pennau ein hunain. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi mabwysiadu dull cydweithredol yng Nghymru o ran gwella ansawdd dŵr a llywodraethiant yn y sector, ac mae'r Bil hwn yn gyfle i ymestyn y cydweithrediad hwnnw ar draws y ffin.

16. Mae rhai rheoliadau a chyfreithiau hefyd yn gymwys yng Nghymru a Lloegr ill dwy. Mae dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb rheoleiddiol. Mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, yn enwedig o ran ansolfedd, felly ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Senedd mor gynhwysfawr â'r cynigion cyfredol.

**Goblygiadau ariannol**

17. Nid yw'r gwelliannau'n golygu unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Casgliadau**

18. Yn fy marn i, mae'n briodol delio â'r gwelliannau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU trwy Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod amcanion y Bil yn cyd-fynd yn llwyr â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r mater yn un trawsffiniol yn ei hanfod sy'n gofyn am gydweithio a chydlynu rhwng ein dwy Lywodraeth. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**
**Ionawr 2025**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon